



YSGOL Y GRAIG

Ffordd y Coleg

Lôn Talwrn

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7LP

www.ysgolygrraig.cymru



Pennaeth / Headteacher
MEINIR ROBERTS BAdd.



AWDURDOD
ADDYSG
YNYS MÔN –



01248 723092



01248 750470

Annwyl Riant/Gwarchodwr

O fis Medi 2022, mi fydd plant Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 yr ysgol hon yn cael prydau ysgol am ddim yn awtomatig.

Erbyn 2024, bydd pob plentyn ysgol gynradd gwladol yng Nghymru yn cael prydau ysgol am ddim.

Bydd angen i chi hysbysu'r ysgol os ydych am i'ch plentyn dderbyn pryd o fwyd yn yr ysgol amser cinio o fis Medi ymlaen. Dylech wneud hyn drwy Ysgol y Graig

Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau a amlinellir isod, dylech gofrestru ar gyfer cinio ysgol am ddim drwy'r Awdurdod Lleol oherwydd efallai y bydd gennych hawl i grantiau fel gwisg ysgol a chitiau Addysg Gorfforol.

Os byddwch yn cofrestru, efallai y byddwn hefyd yn medru cael arian ychwanegol y gellir ei wario ar gefnogi dysgu yn ein hysgol.

Mae buddion cymhwysu yn cynnwys;

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- yr elfen warantedig o Gredyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant (ar yr amod nad oes gennych hawl hefyd i Gredyd Treth Gwaith ac sydd ag incwm gros blynyddol o ddim mwy na £16,190)
- Credyd Treth Gwaith dilynol - a delir am 4 wythnos ar ôl i chi beidio â bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol - os gwnewch gais ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018 rhaid i incwm eich cartref fod yn llai na £7,400 y flwyddyn (ar ôl treth a heb gynnwys unrhyw fudd-daliadau a gewch)

Gall plant sy'n derbyn y budd-daliadau hyn yn uniongyrchol, yn hytrach na thrwy riant neu warcheidwad, hefyd gael prydau ysgol am ddim.

Sut i gofrestru

Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau a restrir uchod gallwch gofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim drwy lenwi'r ffurflen isod:

[Prydau ysgol am ddim \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

Os oes gennych blentyn hŷn yn yr ysgol gynradd sydd eisoes yn cael pryd ysgol am ddim yna mi fydd yn parhau i'w dderbyn.